OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 206 (Cy. 29)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Chwefror 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4), a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi a elwir yn Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Halton;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 9 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**11.**—(1) Nid yw’r gwaharddiadau a’r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**12.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o’r gefnffordd yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6, 7, 8 a 9 yn weithredol.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**13.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Chwefror 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru